



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Llywodraeth Leol

Memorandwm Esboniadol

a Nodiadau Esboniadol

IONAWR 2022

Cynnwys

Datganiad y Gweinidog

Tudalen 3

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

Pennod 1: Disgrifiad

Tudalen 4

Pennod 2: Materion o ddiddordeb arbennig i'r
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Tudalen 4

Pennod 3: Y cefndir deddfwriaethol

Tudalen 4

Pennod 4: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y
bwriedir iddi ei chael

Tudalen 5

Pennod 5: Ymgynghori

Tudalen 5

Pennod 6: Asesu'r gystadleuaeth

Tudalen 7

RHAN 2: ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Pennod 7: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Tudalen 7

Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol - Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Llywodraeth Leol

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol â Rheolau Sefydlog 27.1 i 27.3, fel y'u haddaswyd gan Reol Sefydlog 27.14.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Llywodraeth Leol. Rwy'n fodlon bod y manteision yn gwrthbwysu'r costau.

Rebecca Evans AS,
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

19 Ionawr 2022

RHAN 1

Pennod 1: Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoedduswydd Llywodraeth Leol ("y Cod") yn darparu canllawiau ar gynnwys, arddull, lledaenu a chost cyhoedduswydd awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i awdurdodau lleol roi sylw i'r Cod wrth wneud unrhyw benderfyniad ar gyhoedduswydd. Mae'r Cod yn cael ei ddiweddarau a'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r Cod diwethaf yn 2014.

Pennod 2: Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

Pennod 3: Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Cyhoeddwyd y Cod o dan bwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 ('Deddf 1986'). Trosglwyddwyd y pwerau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- 3.2 Mae adran 4(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, a ddiffinnir yn adran 6(2) o Ddeddf 1986, roi sylw i'r Cod wrth wneud unrhyw benderfyniad ar gyhoedduswydd. Mae adran 6(4) o Ddeddf 1986 yn diffinio cyhoedduswydd fel unrhyw gyfathrebu, ar ba ffurf bynnag, sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yn gyffredinol neu at ran o'r cyhoedd.
- 3.3 Cyhoeddwyd y Cod presennol yn 2014 gan y Gweinidog Llywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau ar y pryd. Mae adran 4(4) o Ddeddf 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn cyhoeddi, diwygio neu dynnu'r Cod yn ôl, ymgynghori ag unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol sy'n ymddangos yn berthnasol, ac unrhyw awdurdod lleol y mae'n ymddangos bod ymgynghori ag ef yn ddymunol. Cynhaliwyd yr

ymgyngoriad dros gyfnod o 8 wythnos rhwng 18 Hydref a 10 Rhagfyr 2021.

- 3.4 Bydd y Cod diwygiedig yn gymwys i bob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n dod o fewn y diffiniad yn adran 6(2) neu sydd â Rhan 2 o Ddeddf 1986 wedi'i chymhwyso iddynt. Mae hyn yn cynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig yn rhinwedd eu bod yn bwyllgor o ddau neu fwy o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol sy'n cyflawni swyddogaethau a fyddai fel arall i'w cyflawni gan y cynghorau sy'n aelodau.
- 3.5 Gosodir y diwygiadau arfaethedig i'r Cod gerbron y Senedd ac maent yn agored i gael eu dirymu. Bwriedir i'r diwygiadau i'r Cod gael eu gwneud a dod i rym erbyn 18 Mawrth 2022 fan bellaf.

Pennod 4: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae nifer o faterion sydd wedi codi'n arbennig yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf sy'n awgrymu ei bod yn amserol adolygu'r Cod presennol a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2014.
- 4.2 Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys canllawiau ar y materion canlynol:
- natur sianeli cyfathrebu awdurdodau lleol sydd wedi newid megis mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol eraill;
 - darlledu cyfarfodydd cynghorau;
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
 - Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021; a
 - Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.
- 4.3 Mae'r Cod yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Gan nad yw awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wedi'u diffinio fel awdurdodau lleol yn adran 6(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986, nid yw'r Cod yn gymwys iddynt yn yr un modd. Fodd bynnag, mae'r Cod yn cynnwys cyfeiriad at awdurdodau tân ac achub gan fod yr egwyddorion y mae'n eu cynnwys yn berthnasol i'w gweithgareddau ac awgrymir bod yr awdurdodau hyn yn nodi ac yn glynu wrth yr egwyddorion hyn.

Pennod 5: Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad ymgynghori rhithwir ar 25 Tachwedd yn gofyn am sylwadau ar y Cod drafft gan gynulleidfa a

wahoddwyd cyn y dyddiad cau. Hefyd, cyhoeddodd ymgynghoriad electronig ar y Cod drafft diwygiedig ar ei wefan. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn dros gyfnod o 8 wythnos rhwng 18 Hydref a 10 Rhagfyr 2021, ac roedd yn gofyn am farn ar y darpariaethau a ddiwygiwyd yn y Cod.

5.2 Cafodd yr ymgynghoriad ei dargedu a'i anfon yn uniongyrchol at yr isod:

- Prif Weithredwyr Prif Gynghorau;
- Arweinwyr Prif Gynghorau;
- Swyddogion Monitro;
- Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru;
- Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub;
- Gwasanaethau Democrataidd Cynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub;
- Arweinydd a Phrif Swyddog Gweithredol CLILC;
- Arweinydd a Phrif Swyddog Gweithredol Un Llais Cymru.

5.3 Roedd tri deg tri chynrychiolydd ledled y rhanbarthau yn bresennol yn y digwyddiad ar 25 Tachwedd. Yn ogystal, daeth cyfanswm o 7 o ymatebion ysgrifenedig i law. Roedd ymatebwyr yn y digwyddiad a thrwy ymatebion ysgrifenedig yn fodlon ar y cyfan â'r cynigion yn y Cod drafft. Ond gofynnodd rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad am eglurhad ar statws cyd-bwyllgorau corfforedig ac awdurdodau tân ac achub ac a oedd y Cod yn gymwys iddynt. Cynhaliwyd cyfarfod ar wahân gyda Swyddogion Monitro awdurdodau tân ac achub ar 9 Rhagfyr i helpu i egluro statws cyfreithiol awdurdodau tân ac achub. Mae'r Cod drafft wedi'i ddiwygio i roi eglurhad drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth benodol ar hyn. Y sefyllfa yw ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i gyd-bwyllgorau corfforedig roi sylw i'r Cod wrth wneud unrhyw benderfyniad ar gyhoeddusrwydd. Nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i awdurdodau tân ac achub roi sylw i'r Cod wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd ond dylid eu hannog i gydymffurfio ag egwyddorion y Cod fel mater o arfer da. Cyfeirir at awdurdodau tân ac achub felly yn y Cod.

5.4 Mae nifer fach o ymatebwyr hefyd o'r farn, er bod y sianeli cyfathrebu mwy modern yn ddefnyddiol i sicrhau mwy o gyrhaeddiad a gwell gwerth am arian ac yn ddewis gwell mewn rhai amgylchiadau, y dylai'r opsiwn i ddefnyddio papurau newydd cynghorau lleol barhau. Fodd bynnag, barn arall yw y dylid dileu'r gofyniad cyfreithiol ar gynghorau i ddefnyddio'r wasg leol mewn rhai achosion. Mae defnyddio papurau newydd cynghorau yn fater hirsefydlog gyda phrif gynghorau ond ni ellir mynd i'r afael â hyn yn y Cod. Y rheswm am hyn yw bod y gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau o'r fath wedi'i nodi mewn ystod eang o ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwasanaeth y prif gynghorau megis cynnal a chadw priffyrdd. Mewn rhai achosion, gallai mynd i'r afael â'r sefyllfa olygu bod angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu ail-wneud

offerynnau statudol. Mae hwn yn fater a fyddai hefyd yn gofyn am waith ymgynghori cyhoeddus helaeth i sicrhau nad oedd unrhyw grwpiau dan anfantais oherwydd newid yn y dull o gyhoeddi hysbysiadau o'r fath.

- 5.5 Teimlai un ymatebydd y dylai cyhoeddi cyfeiriadau cartref cynghorwyr fod yn fater i'r cynghorydd unigol ei benderfynu. Y polisi ar hyn o hyd yw sicrhau na chyhoeddir cyfeiriadau cartref yr aelodau. Y rheswm am hyn yw y gallai darparu unrhyw ddewis i aelodau arwain at bwysau lleol ar aelodau y byddai'n well ganddynt beidio â chyhoeddi eu cyfeiriadau i wneud hynny. Gallai hyn arwain at niwed annerbyniol i les yr aelodau hynny.

Pennod 6: Asesu'r gystadleuaeth

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau i'r farchnad sy'n gysylltiedig â diweddaru'r Cod. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar fusnes, elusennau na'r sector gwirfoddol.

RHAN 2

Pennod 7: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 7.1 Dyma'r opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion polisi mewn perthynas â'r diwygiadau i'r Cod, fel y trafodir yn Adran 4:

Opsiwn 1 – Gwneud dim a pheidio â gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Cod

neu

Opsiwn 2 – Gwneud diwygiadau i ddiweddaru'r Cod.

Opsiwn 1 – Costau a manteision

- 7.2 Ni fyddai unrhyw gostau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol o ganlyniad i fethu â gwneud y diwygiadau i'r Cod.
- 7.3 Fodd bynnag, byddai gwneud dim yn golygu bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw i God ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Llywodraeth Leol sydd wedi dyddio ac nad yw'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol yn y maes hwn. Mae Cod cyfredol yn rhan bwysig o sicrhau defnydd priodol o arian cyhoeddus yn y cyfnod cyn yr etholiad.

Ni argymhellir yr opsiwn hwn

Opsiwn 2 – Costau a Manteision

- 7.4 Mae'r Cod diwygiedig eisoes wedi'i ddrafftio ac ymgynghorwyd arno, felly mae'r costau cysylltiedig yn gostau 'suddedig' ac yn cael eu diystyru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 7.5 Mae adrannau 39 i 41¹ o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a llunio a pharhau i adolygu strategaeth i annog y cyfranogiad hwn. Nid yw'r ddyletswydd statudol hon yn ymestyn i awdurdodau eraill a gwmpesir gan y Cod hwn ond mae egwyddorion ymgysylltu, cynnwys a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl i gyd yn arferion da y dylai pob corff sy'n dod o dan y Cod hwn eu mabwysiadu.
- 7.6 Mae'r gofyniad hwn ar brif gynghorau i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau yn cynnwys darlledu cyfarfodydd cyngor llawn yn fyw lle maent yn agored i'r cyhoedd. Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd, felly byddai'r costau cysylltiedig, os oedd rhai o gwbl, yn gyfyngedig. Wrth i gyrff cyhoeddus ddiweddarau eu dulliau a'u hoffer cyfathrebu, ac i'r byd rhithwir ddod yn norm oherwydd y pandemig, mae'n debygol y byddai'r cyfleusterau i ddarlledu cyfarfodydd cyngor llawn yn bosibl iawn i brif gynghorau heb gost ychwanegol sylweddol.
- 7.7 Mae annog pobl leol i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol yn ymrwymiad sy'n bodoli eisoes o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd ag arferion da o ran atebolrwydd democrataidd. Oherwydd yr ymrwymiad a'r gweithdrefnau hyn sy'n bodoli eisoes a roddwyd ar waith i gyflawni hyn, mae'n annhebygol y byddai costau ychwanegol yn sylweddol. Byddai graddau'r costau ar gyfer y gweithgarwch hwn yn dibynnu ar yr ystod o weithgarwch a gyflawnir. Fodd bynnag, byddai manteision annog pobl leol i gymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol, er ei fod yn llyncu amser ac felly o bosibl yn cynyddu costau staff yn y maes hwn, yn debygol o gael eu gwrthbwysio gan well ymgysylltiad. Gallai hyd yn oed sicrhau arbedion o ran costau sy'n ymwneud â delio ag anghydfodau posibl lle mae pobl leol yn gwrthwynebu penderfyniadau a wneir heb eu cynnwys.

¹ Yn dod i rym ar 5 Mai 2022 yn rhinwedd OS 2021/231

- 7.8 Y manteision i awdurdodau lleol fydd Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Llywodraeth Leol wedi'i ddiwygio, a fydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnwys, arddull a lledaenu cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol yng nghyd-destun y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol a sianelau digidol eraill a deddfwriaeth newydd. Gallai peidio â diweddarau'r Cod gael effaith andwyol ar awdurdodau lleol a allai fel arall fethu â chydymffurfio â darpariaethau newydd, gan nad oeddent yn y Cod.

Dyma'r opsiwn a argymhellir ac a ffefrir.